

Pecyn cais am Fudd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid

Beth yw Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid?

- Mae Budd-dal Analluogrwydd ar gael ar gyfer pobl ifanc
- sy'n analluog ers yn gynnar yn eu bywydau, **ac**
 - sy'n methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd, **ac**
 - sydd heb dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) er mwyn cael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau arferol.

Pryd i wneud cais

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd o unrhyw ddyddiad ar neu ar ôl eich pen-blwydd yn 16 oed.

Dylech gysylltu â ni ar unwaith. Os byddwch yn aros, gallech golli arian.

Efallai mai dim ond 3 mis cyn eich cyswllt cyntaf y gallwn ôl-ddyddio eich cais.

Pryd y gallaf gael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid?

Mae'n rhaid eich bod yn methu â gweithio oherwydd eich salwch neu anabledd am 196 o ddiwrnodau yn olynol cyn y gallwch gael budd-dal. Gall y diwrnodau hyn fod cyn eich pen-blwydd yn 16 oed.

Gelwir y 196 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn analluog i weithio yn eich *cyfnod cymhwyso*.

Dylech gyfrif ymlaen 197 o ddiwrnodau o'r dyddiad na allech weithio gan gynnwys y dyddiad hwnnw, er mwyn rhoi'r dyddiad y gallwch ddechrau gwneud cais.

Pwy sy'n gallu cael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid?

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn ond o dan 20 oed

Mae'n bosibl y gallwch gael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid os

- ydych yn 16 oed neu'n hŷn ond o dan 20 oed a ddim mewn addysg llawn amser
- ydych wedi methu gweithio am o leiaf 196 o ddiwrnodau yn ddilynol. Mae'n rhaid i un o'r diwrnodau hyn fod cyn eich pen-blwydd yn 20 oed
- mae gennych dystysgrif feddygol gan eich meddyg ar gyfer y cyfnod 196 o ddiwrnodau cyfan. Gelwir dystysgrifau meddygol hefyd yn nodiadau salwch, nodiadau meddyg neu'n ddatganiadau meddyg.

Ystyr *addysg llawn amser* yw 21 awr neu fwy o addysg yr wythnos nad yw'n addysg uwch. Weithiau gallwn gyfrif addysg rhan amser fel addysg llawn amser, os na allwch fynd ar gwrs llawn amser oherwydd eich salwch neu anabledd.

Pan fyddwn yn cyfrifo nifer yr oriau, nid ydym yn cyfrif unrhyw amser a dreuliwyd mewn addysg a fyddai'n anaddas ar gyfer pobl o'r un oedran a'r un rhyw, nad ydynt yn dioddef o anabledd corfforol neu feddyliol.

Os ydych yn 19 oed nid ydym yn eich trin fel eich bod mewn addysg llawn amser hyd yn oed os ydych mewn addysg llawn amser.

I gael rhagor o help neu wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Os ydych yn 20 oed neu'n hŷn ond o dan 25 oed

Efallai y cewch Fudd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Budd-dal Analluogrwydd mewn leuentid os

- roeddech wedi'ch cofrestru ar gwrs a ddechreuodd o leiaf 3 mis cyn eich pen-blwydd yn 20 oed. Ystyr *cwrs* yw cwrs llawn amser uwch neu addysg uwchradd, neu gwrs galwedigaethol neu gwrs hyfforddi yn seiliedig ar waith
- gwnaethoch fynd ar un cwrs neu fwy
 - yn ystod y tymor yn union ar ôl i chi gofrestru, a
 - cyn y 197fed diwrnod ar ôl i chi fethu gweithio
- ni fu'n bosibl i chi weithio am gyfnod di-dor o 196 o ddiwrnodau o leiaf yn olynol. Rhaid i un o'r dyddiau hyn fod cyn eich pen-blwydd yn 25 oed.

Ystyr *addysg uwch* yw

- cwrs sy'n eich paratoi am radd
- diploma addysg uwch
- diploma genedlaethol uwch
- diploma genedlaethol uwch y Cyngor Busnes ac Addysg i Dechnegwyr
- diploma genedlaethol uwch Cyngor Addysg Alwedigaethol yr Alban
- cymhwyster dysgu, neu
- cwrs sy'n uwch na lefel diploma genedlaethol arferol.

Rydym yn defnyddio'r term *addysg uwchradd* i olygu cwrs addysg llawn amser sy'n is na lefel addysg uwch.

Rydym yn defnyddio *hyfforddiant galwedigaethol* i olygu cwrs ar gyfer pobl ag anabledd meddyliol neu gorfforol.

Ystyr *hyfforddiant yn seiliedig ar waith* yw hyfforddiant galwedigaethol a gynhelir ar safle eich cyflogwr.

Pwy sy'n gallu cael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid? parhad

Os ydych yn 25 oed neu'n hŷn

Mae'n bosibl y gallwch gael Budd-dal Analluogrwydd os ydych

- wedi cael Budd-dal Analluogrwydd o'r blaen
- wedi gadael Budd-dal Analluogrwydd i wneud gwaith cyflogedig neu hyfforddiant
- heb dalu digon o gyfraniadau YG i gael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau arferol.

Mae'n bosibl y gallwch hefyd gael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid os ydych, yn ystod **y flwyddyn dreth ddiwethaf**, wedi bod yn cael

- Credyd Treth Person Anabl, **neu**
- talwyd Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant i chi ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol, neu
- rydych yn gwneud cais o fewn 56 diwrnod o adael gwaith neu hyfforddiant.

Ni allwch gael Budd-dal Analluogrwydd os cafodd ei atal oherwydd bod eich Asesiad Gallu Personol wedi dangos nad oeddech yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd sy'n angenrheidiol ar gyfer bod yn gymwys i gael budd-dal neu gredydau Yswiriant Gwladol (YG).

Lle rydych yn byw

Er mwyn cael Budd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid, mae'n rhaid i chi

- fyw fel arfer ym Mhrydain Fawr
- bod ym Mhrydain Fawr pan ydych yn gwneud eich cais a
- bod wedi byw ym Mhrydain Fawr, Gogledd Iwerddon neu Ynys Manaw am o leiaf 26 wythnos yn ystod y flwyddyn cyn eich cais.

Mae *Prydain Fawr* yn golygu Cymru, Lloegr a'r Alban.

Dychwelyd o dramor

Os roeddech yn cael Budd-dal Analluogrwydd a ddaeth i ben oherwydd eich bod wedi mynd dramor, gallech ei gael eto am y rhesymau canlynol:

- ni allwch weithio o'r diwrnod y byddwch yn dychwelyd o dramor
- nid ydych wedi gallu gweithio am o leiaf 196 o ddiwrnodau yn olynol
- rydych yn byw ym Mhrydain Fawr o ddyddiad eich cais
- rydych ym Mhrydain Fawr pan fyddwch yn gwneud cais
- rydych wedi byw ym Mhrydain Fawr, Gogledd Iwerddon neu Ynys Manaw am o leiaf 26 wythnos y flwyddyn cyn i chi wneud eich cais
- cawsoch Fudd-dal Analluogrwydd yn y flwyddyn dreth cyn dydd Sul cyntaf mis Ionawr y flwyddyn yr aethoch yn anabl i weithio.

Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 196 diwrnod o'r diwrnod rydych yn dychwelyd o dramor.

Ni allwch gael Budd-dal Analluogrwydd os cafodd ei atal oherwydd bod eich Asesiad Gallu Personol wedi dangos nad oeddech yn cyrraedd y trothwy analluogrwydd sy'n angenrheidiol ar gyfer bod yn gymwys i gael budd-dal neu gredydau Yswiriant Gwladol (YG).

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gael taflen am Fudd-dal Analluogrwydd o'r Ganolfan Byd Gwaith. Neu gallwch ymweld â'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Ar gyfer pwy y gallwch wneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd ychwanegol?

Gwneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd ychwanegol ar gyfer oedolyn

Os oes gennych unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys yn byw gyda chi mae'n bosibl y gallwch gael Budd-dal Analluogrwydd ychwanegol ar gyfer

- eich priod
- eich partner sifil, **neu**
- rywun sy'n gofalu am eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys ar eich rhan.

Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael budd-dal plant ar ei gyfer. Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant er ei cyfer.

Sut i wneud cais

Ffoniwch ni ar **0800 012 18 88**. Os oes gennych nam ar eich lleferydd neu ar eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **01248 67 48 08**.

Os na allwn gymryd eich cais dros y ffôn, gallwch lenwi ffurflen **IB(Y)1W** sy'n dod gyda'r pecyn. Dim ond beiro y dylid ei ddefnyddio i lenwi'r ffurflen hon.

Sicrhewch eich bod yn darllen gweddill y nodiadau hyn. Byddant yn eich helpu i wneud eich cais.

Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Dim ond o dan yr amodau canlynol y dylai rhywun arall lofnodi'r ffurflen gais

- os nad yw'r person sy'n gwneud y cais yn gallu gweithredu'n feddyliol ar eu rhan eu hunain, **ac**
- os yw person yn fodlon gweithredu ar eu rhan ym mhob mater sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol, yn cynnwys dweud wrthym am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau a chasglu arian ar eu rhan. Gelwir rhywun sydd wedi'u derbyn gan yr Adran i weithredu ar ran rhywun arall yn berson a enwebwyd.

Fel arfer ni fydd angen rhywun i weithredu ar ran person sydd ag anabledd corfforol ond sy'n gymwys yn feddyliol.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i weithredu ar ran rhywun arall byddwn yn

- trefnu ymweld â'r person sy'n gwneud cais a'r person sy'n gwneud cais i weithredu ar eu rhan, **a**
- penderfynu p'un a oes angen rhywun ar y person i weithredu ar eu rhan ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol, **ac**
- esbonio'r cyfrifoldebau y bydd y person hwnnw yn ymgymryd â hwy.

Ni chaiff unrhyw fudd-dal sy'n ddyledus ei dalu nes bod y broses wedi'i chwblhau.

Os oes gan rywun bŵer atwrnai neu unrhyw awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person sy'n gwneud y cais, yna dylai'r person hwnnw lofnodi'r ffurflen gais ac amgáu copi o'r awdurdod gyda'r ffurflen gais. Dylai cyfreithiwr ardystio a llofnodi'r copi fel copi cywir.

Help arall

Lwfans Byw i'r Anabl

Budd-dal nawdd cymdeithasol yw hwn ar gyfer pobl â salwch neu anabledd sydd angen

- help i symud o gwmpas, **neu**
- help gyda gofal personol, **neu**
- help gyda'r ddau ohonynt.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gael taflen am Lwfans Byw i'r Anabl o'r Ganolfan Byd Gwaith. Neu gallwch ymweld â'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Budd-dal nawdd cymdeithasol yw hwn i bobl sy'n anabl oherwydd

- damwain yn y gwaith, **neu**
- afiechyd diwydiannol.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gael taflen am Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol o'r Ganolfan Byd Gwaith. Neu gallwch ymweld â'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Credyd Treth Gwaith

Credyd treth yw hwn i ychwanegu at enillion pobl sy'n gweithio. Gallwch wneud cais am Credyd Treth Gwaith os

- ydych yn 16 oed neu'n hŷn, **ac**
- rydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, **ac**
- rydych chi neu'ch partner yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sy'n gymwys, **neu**
- mae gennych anabledd sy'n golygu eich bod dan anfantais wrth geisio cael swydd, **neu**
- rydych chi neu'ch partner yn 50 oed neu'n hŷn ac yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod ar fudd-daliadau allan o waith cymwys.

Os nad oes gennych blant neu bobl ifanc sy'n gymwys neu anabledd sy'n golygu eich bod dan anfantais wrth geisio cael swydd, gallwch hefyd hawlio Credyd Treth Gwaith os

- ydych yn 25 oed neu'n hŷn, **a**
- rydych yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos.

Mae'r Credyd Treth Gwaith ar gael i bobl hunangyflogedig ac i gyflogegion. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Credyd Treth Gwaith, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM ar y rhifau a restrir ar **dudalen 6**.

Credyd Treth Plant

Ni allwch wneud cais am fudd-dal ychwanegol ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n gymwys, ond yn hytrach gallwch wneud cais am Credyd Treth Plant. I gael rhagor o wybodaeth am Credyd Treth Plant ymwelwch â **www.hmrc.gov.uk**

Gallwch wneud cais am Credyd Treth Plant ar-lein hefyd.

Gallwch hefyd ffonio Cyllid a Thollau EM ynglŷn â Chredyd Treth Plant ar **0845 302 1489**. Os oes gennych anawsterau ar eich clyw neu'ch lleferydd gallwch gysylltu â hwy drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 300 3909**.

Mae'r llinellau ar agor o 8am i 8pm saith diwrnod yr wythnos heblaw am Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan a Dydd Sul y Pasg.

Os bydd angen help neu ffurflen arnoch yn Gymraeg, ffoniwch **0845 302 1489**. Mae'r llinellau ar agor o 8.30am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Cymhorthdal Incwm

Mae'n bosibl y gallwch gael Cymhorthdal Incwm os na allwch gael Budd-dal Analluogrwydd, neu os nad yw eich Budd-dal Analluogrwydd yn rhoi digon o arian i chi fyw arno. Os credwch y gallech gael Cymhorthdal Incwm, dylech wneud cais ar unwaith oherwydd dim ond o'r dyddiad y bydd eich cais am Fudd-dal yn cael ei dderbyn gan y Ganolfan Byd Gwaith y bydd Cymhorthdal Incwm yn daladwy.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gael taflen am Cymhorthdal Incwm o'r Ganolfan Byd Gwaith. Neu gallwch ymweld â'n gwefan yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Lwfans Ceisio Gwaith

Budd-dal nawdd cymdeithasol yw hwn ar gyfer pobl ddi-waith sy'n chwilio am waith.

Costau'r GIG

Gallech gael help i dalu am bethau fel presgripsiynau'r GIG a thriniaeth ddeintyddol y GIG.

Budd-dal Tai

Bydd Budd-dal Tai yn cael ei dalu gan gynghorau lleol i bobl sydd angen help i dalu eu rhent. **Nid** yw Budd-dal Tai yn cael ei dalu i helpu tuag at gost taliadau llog morgais.

Budd-dal Treth Cyngor

Gallech gael Budd-dal Treth Cyngor gan eich cyngor lleol i helpu gyda'ch taliadau treth cyngor.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y budd-daliadau hyn o'r Ganolfan Byd Gwaith neu ewch i'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Sut y caiff eich arian ei gyfrifo

Rydym yn talu Budd-dal Analluogrwydd ar gyfer tair cyfradd wahanol o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuentid. Byddwn yn eich talu

- **Budd-dal Analluogrwydd tymor byr** ar y gyfradd isaf os ydych wedi bod yn sâl am fwy na 28 wythnos
- **Budd-dal Analluogrwydd tymor byr** ar y gyfradd isaf os ydych wedi bod yn sâl am fwy na 56 wythnos, neu
- **Budd-dal Analluogrwydd hirdymor** os ydych wedi bod yn sâl am fwy na 80 wythnos

Os oes gennych hawl i gael Budd-dal Analluogrwydd am lai na 7 diwrnod, y swm a gewch am bob diwrnod fydd y swm wythnosol wedi'i rannu gyda 7.

Incwm Pensiwn

Os oes gennych incwm pensiwn cyn treth sy'n fwy na £85.00 yr wythnos, bydd eich Budd-dal Analluogrwydd ac unrhyw Fudd-dal Analluogrwydd rydych yn gwneud cais amdano ar gyfer rhywun arall, yn gostwng. Byddwn yn edrych i weld a oes gennych incwm pensiwn.

Ystyr *incwm pensiwn* yw'r arian sydd gennych yn dod i mewn o

- pensiwn galwedigaethol
- pensiwn personol
- pensiwn gwasanaeth cyhoeddus
- pensiwn cyfranddeiliad
- pensiwn o gynllun pensiwn hunangyflogedig
- taliadau yswiriant iechyd parhaol a drefnwyd gan gyflogwr lle bo'r contract cyflogaeth wedi dod i ben
- taliadau cronfa diogelu pensiwn oherwydd bod cyflogwr yn mynd ŷyn fethdalwr.

Sut y caiff eich arian ei gyfrifo parhad

Ond pan fyddwn yn edrych ar eich incwm o bensiwn **ni fyddwn** yn cynnwys

- tâl salwch gan gyflogwr
- taliadau yswiriant iechyd parhaol a drefnir gan gyflogwr pan fydd gennych gontract cyflogaeth o hyd
- taliadau diogelu morgais
- incwm o fuddsoddiad nad yw'n gysylltiedig â diwedd eich cyflogaeth.

Nid yw'r rheolau incwm pensiwn yn gymwys

- ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n cael yr elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd uchaf, **neu**
- os dechreuodd eich hawl i gael Budd-dal Analluogrwydd cyn 6 Ebrill 2001, **neu**
- os yw eich cais presennol yn cysylltu â chais a wnaed cyn 6 Ebrill 2001.

Bydd eich pensiwn yn cael ei reoli gan *ddarparwr pensiwn*. Fel arfer, mae hwn yn sefydliad megis cyn-gyflogwr neu gwmni yswiriant.

Os telir rhan o'ch pensiwn i'ch cyn-briod neu gyn-bartner sifil o dan orchymyn clustnodi, dim ond y rhan sy'n daladwy i chi a ystyrir fel incwm pensiwn. Gorchymyn clustnodi yw pan fydd y Llys wedi penderfynu, o dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973, bod yn rhaid i'ch darparwr pensiwn dalu rhan o'ch pensiwn i gyn-briod neu gyn-bartner sifil.

Os cafodd rhan o'ch pensiwn ei throsglwyddo i'ch cyn-briod neu gyn-bartner sifil o dan orchymyn rhannu pensiwn, nid ystyrir y swm a drosglwyddwyd fel incwm pensiwn. Gorchymyn rhannu pensiwn yw pan gaiff rhan o'ch pensiwn galwedigaethol ei throsglwyddo i gyn-briod neu gyn-bartner sifil. Un taliad yw hwn fel arfer ac fe'i trosglwyddir iddynt pan fyddant yn ysgaru neu'n diddymu eu partneriaeth sifil.

Ble i gael help a chingor

I gael gwybodaeth am eich cais

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y budd-dal hwn

Ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau i bobl ag anableddau. Mae'r alwad yn rhad ac am ddim. **0800 88 22 00** yw'r rhif. Bydd y sawl sy'n siarad â chi yn gallu cynnig cyngor cyffredinol i chi ar y budd-dal ac yn gallu dweud wrthyich am y gwasanaeth llenwi ffurflenni. Gallant hefyd ddweud wrthyich am sefydliadau eraill a allai eich helpu.

Os ydych yn cael problemau clyw neu siarad ac yn defnyddio ffôn testun, ffoniwch **0800 24 33 55**. Mae'r alwad am ddim. Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hunan, efallai y gallwch ddod o hyd i un yn eich llyfrgell neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr gallwch gael cyngor di-dâl, annibynnol a chyfrinachol am Fudd-dal Analluogrwydd a budd-daliadau eraill. Ffoniwch y Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4 345**. Gallwch ymweld â'u gwefan yn www.communitylegaladvice.org.uk/cy/

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau ymwelwch â'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Eich cais am Fudd-dal Analluogrwydd o dan y rheolau Analluogrwydd mewn leuenctid

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith
a Phensiynau

Pwysig

Ydych chi'n hawlio budd-dal ar neu ar ôl 27 Hydref 2008?

Na Parhewch i lenwi'r ffurflen hon.

Ydw Ffoniwch **0800 012 18 88**.
Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais am fudd-dal newydd a elwir Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn hytrach na Budd-dal Analluogrwydd. Bydd y person y byddwch yn siarad â hwy yn dweud wrthyh pa fudd-dal cywir i'w hawlio.

Y ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd os ydych yn 16 oed neu'n hŷn ond o dan 20 oed ac na allwch weithio oherwydd salwch neu anabledd.

Weithiau gallech wneud cais os ydych yn 20 oed neu'n hŷn ond o dan 25 oed.

I gael rhagor o wybodaeth am bwy a all wneud cais, darllenwch **IB(Y)1W Notes** sy'n dod gyda'r pecyn hwn. Dylech ddarllen y nodiadau hyn cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon.

Sut i lenwi'r ffurflen hon

Mae 3 adran i'r ffurflen hon.

- **Dylai pawb gwblhau adrannau 1 a 3.**
- Dylech gwblhau **Adran 2** dim ond os ydych yn gwneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd ychwanegol ar gyfer oedolyn arall.

Gellir talu'r budd-dal y gallech ei gael o ganlyniad i'r cais hwn yn gynt

- os atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi neu'r person rydych yn gwneud cais am ychwanegiad o fudd-dal ar eu rhan, **ac**
- os darparwch bob dogfen y gofynnwn amdani, **ac**
- os byddwch yn mynychu cyfweiliadau sy'n canolbwyntio ar waith pan fydd angen.

Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni ar unwaith.

Os nas ydych yn cysylltu â ni, gallech golli budd-dal.

Os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon

Os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, gallwch ofyn i rywun arall ei chwblhau ar eich rhan, neu gallwch gysylltu â'ch swyddfa leol.

Llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, gweler **Adran 3, Rhan 20**. Cofiwch gwblhau gweddill y ffurflen gyda'u manylion hwy, nid eich manylion chi.

Adran 1 Gwneud cais i chi eich hun

Rhan 1 Amdanoch chi

Cyfenw neu enw teulu

Mr/Mrs/Miss/Ms

Enwau eraill rydych yn eu defnyddio nawr – yn llawn

Pob cyfenw blaenorol neu enwau teulu rydych wedi'u defnyddio.

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd os oes gennych un

Cod

Rhif

Beth yw'r rhif hwn? Ticiwch.

Cartref

Gwaith

Symudol

Ffacs

Rhif ffôn testun yn ystod y dydd ar gyfer pobl â phroblemau clywed neu siarad

Cod

Rhif

Dyddiad geni

Llythrennau Rhifau

Llythyren

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Os nad ydych yn gwybod eich rhif YG, a ydych erioed wedi cael un neu wedi defnyddio un?

Na

Do

Statws priodasol neu sifil

priod neu bartner sifil

gweddw neu bartner sifil sydd wedi goroesi

wedi gwahanu

sengl

wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu

Beth yw eich cenedligrwydd?

Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth.

- Dywedwch wrthym am unrhyw fanylion personol eraill y credwch y dylem wybod amdanynt yn Rhan 19 Gwybodaeth arall. Er enghraifft, enwau eraill neu gyfeiriadau blaenorol eraill.

Rhan 1 Amdanoch chi parhad

Ydych chi'n disgwyl babi?

Na

Ydw

Ar ba ddyddiad y disgwylir i'ch babi gael ei eni?

Ydych chi wedi cael babi yn y 39 wythnos cyn y dyddiad rydych yn gwneud cais am Fudd-dal Analluogrwydd ohono?

Na

Ydw

Ar ba ddyddiad y ganed eich babi?

Rhan 2 Y dyddiad rydych am i'ch cais ddechrau

Pa ddyddiad oeddech chi'n methu gweithio gyntaf oherwydd eich salwch neu'ch anabledd?

Bydd hyn yn ein helpu i gyfrifo eich *cyfnod cymhwyso*.

Cyn i chi gwblhau'r dyddiad hwn, darllenwch **Pryd i wneud cais** ar dudalen 4 o IB(Y)1W Notes.

O ba ddyddiad rydych am i'ch cais am Fudd-dal Analluogrwydd ddechrau?

Cofiwch, mae'n rhaid eich bod wedi bod yn sâl neu'n anabl am o leiaf 196 o ddiwrnodau cyn y dyddiad hwn.

Rhaid i chi anfon tystysgrif feddygol atom sy'n cwmpasu'r 196 o ddiwrnodau hyn gyda'r ffurflen gais hon.

Rhan 4 Ynglŷn â'ch addysg a'ch hyfforddiant

A ydych yn mynd i ysgol neu goleg?

Ticiwch **Ydw** hyd yn oed os ydych yn mynd i ysgol arbennig neu brifysgol.

Beth yw enw a chyfeiriad yr ysgol, coleg neu brifysgol rydych yn mynd iddo.

Faint o oriau'r wythnos rydych yn eu treulio yn dysgu yno?

Na

Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod.

Cod post

--

Wrth gyfrif yr oriau rydych yn eu treulio'n dysgu bob wythnos, peidiwch â chyfrif amser cinio, amser egwyl, amser teithio na'r amser rydych yn ei dreulio yn gwneud gwaith cartref. Os ydych yn treulio 21 awr neu fwy yn dysgu bob wythnos, efallai na allwch gael Budd-dal Analluogrwydd.

Nid ydym yn cynnwys rhai mathau o addysg. Felly mae'n bosibl y byddwn yn ysgrifennu i'ch ysgol, coleg neu brifysgol er mwyn cael rhagor o wybodaeth am eich cwrs. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **IB(Y)1W Notes** a anfonwyd gyda'r ffurflen hon.

Oes rhywun yn cael Budd-dal Plant ar eich cyfer, neu a yw newydd ddod i ben?

Ticiwch **Oes** hyd yn oed os ydynt yn aros i gael clywed amdano, neu os ydynt wedi gwneud cais i'r budd-dal barhau neu i aildechrau'r budd-dal.

Eu cyfenw

Enwau eraill – yn llawn

Cyfeiriad

Na

Oes Dywedwch wrthym am y **person hwnnw** isod

Mr/Mrs/Miss/Ms

--

Cod post

Nodwch eu rhif cyfeirnod Budd-dal Plant

Rhifau

--	--	--	--	--	--	--	--

Llythrennau

--	--

Os ydych dros 20 oed ond o dan 25 oed

I gael rhagor o wybodaeth am fathau o addysg, darllenwch y **IB(Y)1W Notes** rydym wedi eu hanfon atoch gyda'r ffurflen hon.

A oeddech mewn addysg uwch neu addysg uwchradd a ddechreuodd o leiaf 3 mis cyn eich pen-blwydd yn 20 oed?

Na

Oeddwn

Dywedwch wrthym am hyn isod.

Enw a chyfeiriad eich ysgol, coleg neu brifysgol.

Cod post

Pa gwrs a oeddech yn ei astudio?

Pa ddyddiad y gwnaethoch ddechrau eich cwrs?

Os ydych wedi gadael eich cwrs, nodwch y dyddiad y gwnaethoch roi'r gorau iddo

A wnaethoch unrhyw hyfforddiant galwedigaethol neu hyfforddiant yn seiliedig ar waith a ddechreuodd o leiaf 3 mis cyn eich pen-blwydd yn 20 oed?

Na

Do

Anfonwch unrhyw ddogfennau sydd gennych yn dangos y math o hyfforddiant a lle y cawsoch eich hyfforddiant.

Pa ddyddiad y gwnaethoch ddechrau eich cwrs hyfforddi?

Os ydych wedi gadael eich hyfforddiant, nodwch y dyddiad y gwnaethoch roi'r gorau iddo

Rhan 5 Ynglŷn â'ch gwaith

A oeddech yn gweithio i gyflogwr cyn i chi fetu gweithio oherwydd eich salwch neu anabledd?

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Enw a chyfeiriad eich cyflogwr diwethaf

Cod post

Beth oedd eich gwaith neu'ch galwedigaeth arferol?

Faint o oriau'r wythnos oeddech yn eu gweithio?

Gawsoch chi Gredyd Treth i Bobl Anabl yn ystod y 2 flynedd cyn 6 Ebrill 2003?

Na

Do Ar gyfer pa gyfnod y dyfarnwyd hwn?

o / / i / /

A ydych yn gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith mewn swyddfa Canolfan Byd Gwaith neu Ganolfan Gwaith?

Na

Ydw Llenwch eich ffurflen **ES40W** a'i dychwelyd i swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Ganolfan Gwaith ar unwaith.

Ynglŷn â hunangyflogaeth

Oeddech chi'n hunangyflogedig cyn i chi fetu gweithio oherwydd eich salwch neu anabledd?

Na Ewch i **Rhan 6**.

Oeddwn Dywedwch wrthym am hyn isod.

Beth oedd eich galwedigaeth arferol?

Nodwch fanylion byr am y gwaith roeddech yn ei wneud fel arfer.

Pryd oeddech chi'n hunangyflogedig?

o / / i / /

Faint o oriau'r wythnos oeddech yn eu gweithio fel arfer?

Rhan 6 Ynglŷn â'r amser rydych wedi'i dreulio y tu allan i Brydain Fawr

Mae angen i ni gael gwybod am yr amser rydych wedi'i dreulio dramor. Mae hyn yn golygu unrhyw wlad y tu allan i Brydain Fawr. Rydym yn defnyddio *Prydain Fawr* i olygu Cymru, yr Alban a Lloegr.

Ydych chi'n byw ym Mhrydain Fawr fel arfer?

Na

Ydw

Ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon neu ar Ynys Manaw fel arfer?

Na

Ydw

Ydych chi wedi byw y tu allan i Brydain Fawr ar unrhyw adeg yn ystod y 5 mlynedd cyn y dyddiad rydych am i'ch cais ddechrau? Ticiwch **Na**, os mai dim ond ar wyliau yr aethoch dramor.

Na

Ydw I ba wledydd yr aethoch iddynt, a phryd?

Gwlad

O

 |

Gwlad

O

 |

Ydych chi wedi bod dramor ar unrhyw adeg arall?

Ticiwch **Na**, os mai dim ond ar wyliau yr aethoch dramor.

Na

Ewch i'r dudalen nesaf.

Ydw

I ba wledydd yr aethoch iddynt, a phryd?

Gwlad

O

 |

Gwlad

O

 |

Ticiwch y disgrifiad sy'n berthnasol i'ch amser dramor.

Y *DU* yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys y dyfroedd tiriogaethol o amgylch y *DU*. Ond nid yw'r *DU* yn cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sanel.

Roeddwn yn gweithio i gyflogwr tramor

Roeddwn yn gweithio i gyflogwr o'r *DU*

Roeddwn yn hunangyflogedig

Roeddwn yn cael arian o gynllun nawdd cymdeithasol y wlad roeddwn yn aros ynddi

Arall - rhowch y manylion isod

Rhan 6 Ynglŷn â'r amser rydych wedi'i dreulio y tu allan i Brydain Fawr parhad

Fuoch chi dramor am 26 wythnos neu fwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Na

Do Dywedwch wrthym am hyn isod.

Enw'r wlad

Dyddiad y gwnaethoch adael Prydain Fawr

Dyddiad y gwnaethoch ddychwelyd i Brydain Fawr

Oeddech chi dramor oherwydd eich bod yn Lluoedd Arfog EM?

Na

Oeddwn

Oeddech chi dramor oherwydd bod aelod o'ch teulu yn Lluoedd Arfog EM?

Na

Oeddwn

Beth yw eu perthynas â chi? Byddwn yn ysgrifennu atoch ynglŷn â hyn.

Ydych chi, eich priod neu'ch partner sifil, wedi'ch esgusodi rhag talu treth incwm y DU?

Na

Ydw

Oeddech chi dramor am fwy na blwyddyn i gyd yn ystod y pum mlynedd cyn i chi roi'r gorau i dalu treth incwm y DU?

Na

Oeddwn

Rhan 7 Incwm pensiwn

Mae angen i ni wybod am unrhyw incwm pensiwn a gewch gan y gallai effeithio ar swm y budd-dal y gallech ei gael. Darparwch dystiolaeth o'ch incwm pensiwn.

I gael gwybodaeth am ddarparwyr pensiwn, incwm pensiwn a sut y gallai effeithio arnoch chi, darllenwch dudalen 7 o IB(Y)1W Notes.

Ydych chi'n aros i glywed am incwm pensiwn? Na

Os Ydw, gadewch i ni wybod cyn gynted ag y bydd eich incwm pensiwn wedi'i ddyfarnu. Ydw

Ydych chi'n cael incwm pensiwn? Na

Os ydych wedi ateb Na i'r ddau Ydw Rhowch y manylion isod. Yswiriant iechyd parhaol ar dudalen 12.

Anfonwch brawf atom o'ch incwm pensiwn. Er enghraifft

- llythyr o hawl gan eich cyflogwr neu'r cwmni yswiriant sy'n talu'r pensiwn
- hysbyseb cyngor taliad gan ddarparwr eich pensiwn
- slip cyflog cyfredol sy'n dangos eich incwm pensiwn.

Anfonwch y dogfennau gwreiddiol atom. Peidiwch ag anfon llungopiau atom.

Os na fyddwch yn anfon prawf o'ch incwm pensiwn atom, efallai byddwch yn colli budd-dal.

Eich incwm pensiwn personol cyntaf (neu'r unig un)

Rhowch enw a chyfeiriad eich darparwr pensiwn

Cod Post	

Rhowch rif ffôn eich darparwr pensiwn

Cod	Rhif
-----	------

Beth yw rhif cyfeirnod eich pensiwn?

--

Faint o bensiwn sy'n ddyledus i chi cyn unrhyw ddiidyniadau?

£

Faint o bensiwn a delir i chi ar ôl unrhyw ddiidyniadau?

£

Pa mor aml y caiff eich pensiwn ei dalu?

--

Er enghraifft bob wythnos, bob pedair wythnos, bob mis, bob chwarter.

Pryd bydd swm eich pensiwn yn newid?

--

Er enghraifft 1 Mai.

Pryd byddwch chi'n cael y taliad cyntaf sy'n cynnwys y newid?

--

Er enghraifft 15 Mai.

Eich ail incwm pensiwn personol

Rhowch enw a chyfeiriad eich darparwr pensiwn

Cod Post

Rhowch rif ffôn eich darparwr pensiwn

Cod	Rhif
-----	------

Beth yw rhif cyfeirnod eich pensiwn?

--

Faint o bensiwn sy'n ddyledus i chi **cyn** unrhyw ddidyniadau?

£

Faint o bensiwn a delir i chi **ar ôl** unrhyw ddidyniadau?

£

Pa mor aml y caiff eich pensiwn ei dalu?

Er enghraifft bob wythnos, bob pedair wythnos, bob mis, bob chwarter.

--

Pryd bydd swm eich pensiwn yn newid?

Er enghraifft 1 Mai.

--

Pryd byddwch chi'n cael y taliad cyntaf sy'n cynnwys y newid?

Er enghraifft 15 Mai.

--

Pensiwn a delir i chi fel buddiolwr

A delir unrhyw bensiwn fel buddiolwr i chi, oherwydd marwolaeth aelod o gynllun pensiwn?

Na

Ydw Rhowch fanylion isod.

Enw a chyfeiriad y darparwr pensiwn

Cod Post

Rhif ffôn y darparwr pensiwn

Cod	Rhif
-----	------

Faint yw'r pensiwn **ar ôl** unrhyw ddidyniadau?

£

Pa mor aml y caiff eich pensiwn ei dalu?

Er enghraifft yn wythnosol, bob pedair wythnos, bob mis, bob chwarter.

--

Yswiriant iechyd parhaol

Ydych chi'n aros i glywed am unrhyw daliad yswiriant iechyd parhaol?

Na

Ydw

Os Ydw rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bydd eich taliad yswiriant iechyd parhaol wedi'i ddyfarnu.

Ydych chi'n cael taliad yswiriant iechyd parhaol?

Na Ewch i Rhan 8.

Ydw

Anfonwch brawf i ni o'ch yswiriant iechyd parhaol. Er enghraifft

- llythyr o hawl gan eich cyflogwr neu'r cwmni yswiriant sy'n talu'r yswiriant iechyd parhaol
- hysbyseb cyngor taliad gan ddarparwr eich yswiriant iechyd parhaol
- slip cyflog cyfredol sy'n dangos manylion eich incwm o yswiriant iechyd parhaol.

Anfonwch y dogfennau gwreiddiol atom. Peidiwch ag anfon llungopiau. Os na fyddwch yn anfon prawf o'ch yswiriant iechyd parhaol atom, efallai y byddwch yn colli budd-dal.

Enw a chyfeiriad y cyflogwr sy'n talu'r premiymau yswiriant iechyd parhaol

Cod Post

Eu rhif ffôn

Cod	Rhif
-----	------

Ydy'ch contract cyflogaeth gyda'r cyflogwr hwn wedi dod i ben?

Na

Ydy Pryd y daeth i ben? / /

Ydych chi wedi cyfrannu mwy na hanner y premiymau tuag at unrhyw daliad yswiriant iechyd parhaol?

Na

Do

Gallwch ddefnyddio'r gofod hwn i ddweud wrthym os oes gennych unrhyw incwm pensiwn arall, neu unrhyw beth arall y credwch y gallai fod angen i ni ei wybod ynglŷn â'ch incwm pensiwn. Er enghraifft, rhowch y rheswm a'r swm ar gyfer unrhyw ddidyniadau a gymerir o'ch incwm pensiwn.

--

Rhan 8 Gwybodaeth am dreth

Os ydych yn gymwys i gael Budd-dal Analluogrwydd, gallai effeithio ar swm y dreth incwm sy'n rhaid i chi ei dalu.

Ni fydd eich atebion i'r cwestiynau hyn yn effeithio ar p'un a gewch Fudd-dal Analluogrwydd ai peidio, ond byddant yn ein helpu i geisio sicrhau eich bod yn cael y cod treth cywir a'ch bod yn talu'r swm cywir o dreth.

Ardal dreth a rhif cyfeirnod treth

Mae hwn i'w weld uwchben eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar ffurflenni treth Cyllid a Thollau EM. Neu gallwch ofyn i'ch cyflogwr neu'ch darparwr pensiwn. Hyd yn oed os nad ydych yn gwybod eich rhif cyfeirnod treth, anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom ar unwaith.

A fydd eich cyflogwr yn parhau i'ch talu pan fyddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eich salwch neu'ch anabledd?

Na

Bydd

Os ydych yn hunangyflogedig a roddir y gorau i'ch busnes nawr oherwydd eich salwch neu'ch anabledd?

Na

Bydd

Lwfans treth incwm personol person dall

